RHONDDA CYNON TAF

# DISGRIFIAD SWYDDOGAETH

## CYNGHORYDD Y FWRDEISTREF SIROL W OWEN

Mae'r Disgrifiad Swyddogaeth yma'n berthnasol i'ch swyddogaeth yn:

- Aelod Etholedig
- Aelod o'r Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / Apeliadau Prif Swyddogion
- Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio (Pwyllgor Cynllunio a Datblygu)
- Aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-27

## EICH SWYDDOGAETH YN AELOD ETHOLEDIG

**Yn atebol:**

- I'r Cyngor llawn
- I'r Etholwyr

**Diben a Gweithgaredd y Swyddogaeth:**

**Cynrychioli a bod yn gefn i'ch etholwyr a'ch cymunedau:**

- Cynrychioli buddiannau eich Adran Etholiadol.
- Hyrwyddo'r Cyngor yn eich Adran Etholiadol a'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu.
- Bod yn ddolen gyswllt â'r gymuned ynghylch strategaethau, gwasanaethau, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.
- Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau/mudiadau lleol, gan fynd ar ôl achosion unigol ar eu rhan a gwasanaethu pawb mewn modd teg a chyfartal.
- Cysylltu ag Aelodau Gweithredol, Aelodau eraill o'r Cyngor, Swyddogion y Cyngor a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion y cymunedau lleol yn cael eu hadnabod, eu deall a'u diwallu.
- Hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad yn y cymunedau lleol.
- Ymateb i unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd (yn ôl yr angen) yng nghyfarfodydd y Cyngor.

**Dod i benderfyniadau, a bwrw golwg ar gyflawniad y Cyngor:**

- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn, dod i benderfyniadau gwybodus a chytbwys yn ôl yr wybodaeth briodol, a bwrw golwg ar gyflawniad y Cyngor.
- Parchu egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd ynglŷn â dod i benderfyniadau.
- Hyrwyddo trefniadau effeithiol ac effeithlon parthed darparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Bod yn effro i'r Polisi Diogelu Corfforaethol a chynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio ag ef

  Dolen gyswllt i'r polisi:

  http://inform/cy/policiesandprocedures/otherpolicies/corporatesafeguardingpolicy.pdf

**Cynrychioli'r Cyngor**

- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff partneriaeth lleol (o'ch penodi iddyn nhw), gan hyrwyddo buddiannau a lles cyffredin y naill ochr a'r llall, a hybu cydweithredu.
- Cynrychioli a hyrwyddo'r Cyngor ar gyrff cenedlaethol ac mewn achlysuron cenedlaethol (o'ch penodi).

## EICH SWYDDOGAETH YN AELOD O'R PWYLLGOR APELIADAU / APELIADAU GWEITHWYR / APELIADAU PRIF SWYDDOGION

**Yn atebol:**

- I'r Cyngor llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion

**Cyfrifoldebau:**

- Gwrando ar achosion o gwynion, disgyblu, galluogrwydd, dileu swydd neu apeliadau diswyddo eraill o fewn gweithdrefnau'r Cyngor mewn perthynas â'r holl staff gan gynnwys y Prif Swyddogion.
- Gwrando ar unrhyw apêl arall yn erbyn penderfyniad mae'r Awdurdod wedi'i wneud, neu sydd wedi'i wneud ar ran yr Awdurdod

**<u>EICH SWYDDOGAETH YN AELOD O BWYLLGOR RHEOLEIDDIO (PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU)</u>**

**Yn atebol:**

- I'r Cyngor llawn

**Cyfrifoldebau:**

- Gwybod am natur led-farnwrol trefnau gwneud penderfyniadau gan y Pwyllgor Rheoleiddio.
- Gweithredu yn ôl gofynion technegol, cyfreithiol, a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chytbwys.
- Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol wrth dderbyn cyngor proffesiynol ac arbenigol am gynnal cyfarfodydd ac achosion/ceisiadau unigol ger bron y Pwyllgor, ac wrth ymateb i'r cyngor hwnnw.
- Cymryd rhan effeithiol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoleiddio, gan ofalu ei fod yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ystyriaethau lleol ac argymhellion ynghylch polisïau i ddibenion dod i benderfyniadau effeithiol.
- Dod i benderfyniadau gwybodus a chytbwys yn ôl yr wybodaeth briodol, yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor, sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad, a gofynion y polisïau perthnasol.

**<u>EICH SWYDDOGAETH YN AELOD O BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022-2027</u>**

**Yn atebol:**

- I'r Cyngor llawn
- I'r Cyhoedd
- I Gyrff Rheoleiddio Allanol
- I Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

**Cyfrifoldebau:**

- Mynychu a chymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a bod yn gyfarwydd â'i gylch gorchwyl.
- Cynorthwyo ynglŷn â chyfeiriad ac arweiniad ar gyfer y broses graffu, gan adolygu'n barhaus ei chyflawniad o fewn fframwaith ehangach y Cyngor ar gyfer dod i benderfyniadau gwleidyddol.

- Cymryd rhan weithredol i baratoi Rhaglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a'r Gweithgorau, fel y bo'n briodol.
- Mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a'r/neu'r Gweithgorau sy'n codi o hynny, fel y bo'n briodol, gan ofalu bod yr holl waith gofynnol yn cael ei gyflawni'n briodol ac o fewn amser rhesymol.
- Cyfrannu at waith y Pwyllgor a'r Gweithgorau Craffu, fel y bo'n briodol ac yn angenrheidiol.
- Cadw yn gyfarwydd â'r holl faterion sydd i'w trafod yn rhan o Raglen Waith y Cabinet, a'r Hysbysiadau o Benderfyniadau sy'n codi o gyfarfodydd y Cabinet a chyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet, er mwyn nodi cysylltiadau posibl â'r broses graffu.
- Mynychu cyfarfodydd y Cabinet a chyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet, pan fydd hynny'n briodol, er mwyn ategu'r wybodaeth sy'n deillio o waith craffu, neu mewn cysylltiad â Rhaglen Waith y Cabinet.
- Arfer yr hawl i 'alw i mewn', er mwyn ailystyried penderfyniadau sydd wedi'u gwneud, ond sydd heb eu gweithredu eto gan yr Adain Weithredol yn unol ag Adran 17 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.
- Galw'r Adain Weithredol i gyfrif, fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaethau trwy:

    - Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a chyflawniad yr Adain Weithredol a/neu'r Pwyllgorau, a Swyddogion y Cyngor.
    - Adolygu a chraffu ar gyflawniad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau cyflawni, a/neu feysydd gwasanaeth penodol.
    - Monitro cyflawniad yn erbyn strategaeth y gyllideb.

- Gwneud cais i Aelodau o'r Cabinet a/neu Swyddogion ymddangos gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu pan fydd hynny'n angenrheidiol a phriodol, er mwyn ateb cwestiynau ynglŷn â'u gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith craffu.
- Cyflwyno tystiolaeth/cyngor/cynigion sy'n codi yn sgil y broses graffu i'r Adain Weithredol a/neu'r Pwyllgor priodol a/neu'r Cyngor.
- Dadansoddi goblygiadau'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn adroddiadau monitro'r gyllideb, o ran rheoli adnoddau'r Cyngor yn effeithiol, a'i chysylltiadau â chyflawniad gwasanaethau.
- Adrodd i'r Cyngor a'r Cabinet ar faterion y gyllideb yn dilyn proses ymgynghori statudol.
- Cymryd rhan, yn ôl y gofyn, yng ngwaith paratoi Adroddiadau Blynyddol sy'n nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud a chyflawniadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Gweithgorau.
- Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau datblygu Aelodau ar gyfer Aelodau Craffu, gan alluogi cyfranogiad llawn a gweithredol o fewn y broses graffu.
- Monitro hynt gwaith a chyflawniad y gwasanaethau unigol a chyrff/sefydliadau allanol priodol, gan gynnwys pwyllgorau ar y cyd.
- Gwerthuso a fo'r polisïau, strategaethau a chynlluniau'r Cyngor yn gwireddu, gyda threigl amser, y canlyniadau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer pobl leol.

- Mynd ati i ymgysylltu â'r gymuned a sefydliadau lleol er mwyn cael eu barn ar faterion neu gynigion sy'n effeithio ar yr ardal, ac, os yw hynny'n briodol, eu hannog i fynd i gyfarfodydd craffu.
- Gofalu bod y broses graffu yn cyfrannu at hybu lles yn y gymuned, a bod gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i anghenion y bobl.
- Adolygu a chraffu ar gyflawniad asiantaethau allanol, trwy ddatblygu dull o fynd ati dan bartneriaeth trwy ddulliau craffu ar y cyd.
- Yn unol â Gorchymyn Rhif 1 Personau Dynodedig (Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) fel y bo'n briodol, gofyn am wybodaeth ac ymatebion gan y "personau dynodedig" priodol, a gwahodd y personau hynny / person hwnnw i fynychu cyfarfod/cyfarfodydd o'r Pwyllgor, yn ôl y gofyn.
- Pennu meysydd polisi neu dangyflawni y mae angen eu gwella, ceisio cymorth arbenigol, a darparu tystiolaeth, cyngor, argymhellion a chynigion i'r Cyngor neu'r Adain Weithredol eu trafod.
- Cael adroddiad blynyddol mewn perthynas â chydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol.
- Monitro hynt a chyflawniad unrhyw fater o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r/neu'r Gweithgorau, sy'n effeithio ar yr ardal neu'i thrigolion, ac os y farn yw bod hynny'n angenrheidiol, ymgymryd ag ymchwiliad manwl a thrylwyr i fesur y canlyniadau neu'r trefniadau ar gyfer cynnal gwasanaethau.
- Unrhyw ddyletswyddau perthynol eraill y mae Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn eu pennu.

**DATBLYGU AELODAU**

- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor, a chynnal y safonau gorau posibl o ran ymddygiad a moeseg yn y ffordd byddwch chi'n ymgymryd â'ch dyletswyddau.
- Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau datblygu Aelodau ar gyfer Rheoli Datblygu, gan alluogi cyfranogiad llawn a gweithredol o fewn y broses Rheoli Datblygu.
- Dealltwriaeth gadarn o'r Cod Arfer Dda mewn perthynas â'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, a pharchu'r darpariaethau sydd iddyn nhw.
- Ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ac anghenion hyfforddiant ychwanegol, e.e. mewn perthynas â'ch swyddogaeth briodol a fydd yn cael sylw yn rhan o'ch Adolygiad Datblygiad Personol parhaus.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu er mwyn gwella'ch dealltwriaeth o'ch swyddogaeth ar Bwyllgorau/cyrff allanol ac ati, byddwch chi wedi'ch penodi iddyn nhw.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu ar gyfer Aelodau/Cynghorwyr.

**GWERTHOEDD**

- Ymrwymo wrth werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
    - Bod yn agored a thryloyw
    - Bod yn onest a dilwgr
    - Bod yn oddefgar a pharchus
    - Bod yn anwahaniaethol a theg
    - Derbyn gwahaniaeth mewn diwylliant
    - Cynaliadwyedd

Llofnod..............W Owen..............................

Enw................W Owen..............................

Dyddiad ………04/01/2023……………………